

CYFARFOD	PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
DYDDIAD	23 Mawrth 2023
TEITL	Cyfarfodydd Herio Perfformiad Cyllid
PWRPAS YR ADRODDIAD	I enwebu cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Gyllid
AWDUR	Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.
2. Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu i fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn.
3. Mae cynrychiolwyr y pwyllgorau craffu yn cael gwahoddiad er mwyn:
 - Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
 - Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.
4. Disgwylir i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl i'r cyfarfod anffurfiol cyntaf o'r pwyllgor craffu perthnasol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.
5. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 14 Gorffennaf 2022, enwebwyd cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad y meysydd gwaith sydd yn berthnasol i'r pwyllgor.
6. Enwebwyd y Cynghorwyr Beth Lawton ac Elin Hywel i gynrychioli'r pwyllgor yng Nghyfarfodydd Herio Perfformiad Cyllid.
7. Mae'r Cynghorydd Elin Hywel wedi sefyll i lawr o fod yn aelod o'r pwyllgor felly mae angen enwebu aelod i gynrychioli'r pwyllgor yn ei lle.
8. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi enwebu aelod i gynrychioli'r pwyllgor yng Nghyfarfodydd Herio Perfformiad Cyllid.**